# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mrs A Williams**


06/02/23

Annwyl riant/gofalwr,

Yr wythnos hon byddwn yn codi ymwybyddiaeth o ddefnyddio’r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel gyda’n disgyblion. Mae hyn yn rhywbeth rydyn ni'n ei ymarfer yn rheolaidd gyda'n plant ond gan fod yfory, dydd Mawrth 7 Chwefror, yn **Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel** roeddem yn meddwl y byddem yn tynnu eich sylw at rywfaint o wybodaeth a chanllawiau a allai fod yn ddefnyddiol i chi gartref.

Yn y Deyrnas Unedig, caiff y diwrnod ei gydlynu gan **UK Safer Internet Centre** ac yn ystod y dathliad mae cannoedd o sefydliadau yn uno i godi ymwybyddiaeth o faterion diogelwch ar-lein a chynnal digwyddiadau a gweithgareddau ledled y Deyrnas Unedig. Mae’r diwrnod yn rhoi’r cyfle i ni edrych ar y rôl sydd gan bob un ohonom i ddod at ein gilydd i greu rhyngrwyd gwell.

Thema’r DU eleni yw ***“Am siarad amdano? Creu lle ar gyfer sgyrsiau am fywyd ar-lein”***

Y nod eleni yw annog pobl ifanc i leisio’u barn ac adrodd eu hanesion am ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol, gemau cyfrifiadurol neu apiau. Mae’r platfformau a ddefnyddir gan bobl ifanc yn fannau cymunedol ar gyfer cysylltu, a chydweithio. Dyna pam bod Diwrnod Defnyddio’r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn eu herio i feithrin perthnasau cefnogol a chymunedau llawn parch, gan eu harfogi â’r sgiliau sydd eu hangen arnynt i’w cadw eu hunain ac eraill yn ddiogel yn y mannau hyn.

Isod mae dolen i daflen wybodaeth ar ein gwefan ***– Tips for Encouraging Open Discussion about Digital Lives:***

https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/parc-y-tywyn-school/UploadedDocument/ab4be077-b5ae-4b80-a7ef-cb6caef09818/open-discussions-about-digital-lives.pdf

Mae gennym lawer o ganllawiau i rieni ar ein gwefan. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau i chwarae gemau ar-lein, cyfryngau cymdeithasol a llinellau cymorth.

https://parc-y-tywyn-school.secure-primarysite.net/e-ddiogelwch-e-safety/

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, na oedwch mewn cysylltu â'r ysgol.

Cofion cynnes,

*H Davies*

Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher